**Julie James AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni**
**Counsel General and Minister for Delivery**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/CG/2813/25

Mike Hedges AS, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

15 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod y Prif Weinidog, fel un o Weinidogion Cymru ac yn unol ag adran 37Z o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, wedi gwneud y penderfyniad ar rifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth Cymru nas gwneir drwy offeryn statudol Cymreig.

Bydd y penderfyniad yn dod i rym ar 1 Ionawr 2026.

Atodaf gopi o'r penderfyniad er gwybodaeth, o ystyried cyfrifoldeb y Pwyllgor tuag at graffu is-ddeddfwriaeth, a'i ddiddordeb ehangach yng ngwaith y Llywodraeth i wella hygyrchedd cyfraith Cymru.

Yn gywir,

Julie James

**Julie James AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Cyflawni
Counsel General and Minister for Delivery

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Cwnsler.Cyffredinol@llyw.cymru
correspondence.Counsel.General@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Penderfyniad Gweinidogion Cymru ar rifo a dosbarthu is-ddeddfwriaeth nas gwneir drwy offeryn statudol Cymreig

1. Mae'r penderfyniad hwn wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru o dan adran 37Z o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019.

2. Mae'n ymwneud ag is-offerynnau Cymreig, o fewn yr ystyr a roddir gan adran 3(2) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, nad ydynt ond yn cynnwys is-ddeddfwriaeth—

    a. a wneir gan Weinidogion Cymru, a

    b. *nad* yw'n ofynnol ei gwneud drwy offeryn statudol Cymreig;

    (y cyfeirir atynt yn y penderfyniad fel "NOSCau" neu "NOSC").

3. Mae'n nodi'r gofynion ar gyfer rhifo a dosbarthu NOSCau, ac yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ynghylch cyhoeddi NOSCau a'u cadw.

4. Mae'n gymwys i NOSCau a wneir ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026.

## Rhifo

5. Mae pob NOSC a wneir:

    a. i'w ddyrannu i gyfres o NOSCau ar gyfer y flwyddyn galendr y caiff ei wneud ynddi;

    b. i'w rifo o fewn y gyfres honno –

        i. yn olynol (gan ddechrau â rhif 1), a
        ii. mor agos ag y bo modd i'r drefn y gwneir y NOSCau hynny ynddi.

## Dosbarthu

6. O ran pob NOSC a wneir—

    a. rhaid ei ddosbarthu yn unol â phwnc y NOSC, a

    b. rhaid dyrannu pennawd pwnc iddo yn seiliedig ar y pwnc hwnnw.

7. Mae'r penawdau pwnc a ddefnyddir ar gyfer NOSCau i gael eu seilio ar y penawdau pwnc a ddefnyddir ar gyfer offerynnau statudol Cymreig y penderfynir arnynt ac a ddelir gan y Cofrestrydd OSau ar ran Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru. Os nad yw pennawd pwnc addas yn cael ei ddal gan y Cofrestrydd

OSau, bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar bennawd pwnc newydd ar adeg gwneud y NOSC.

8. Caniateir defnyddio mwy nag un pennawd pwnc ar gyfer NOSCau a chaniateir defnyddio is-bennawd (sy’n gysylltiedig â’r prif bennawd) hefyd.

9. Nid yw’r ôl-ddodiad “Cymru” i’w ddefnyddio ym mhenawdau pwnc NOSCau.

## Cyhoeddi

10. Rhaid i bob NOSC a wneir gynnwys:

    a. y rhagddodiad “NOSC” (“NWSI”), blwyddyn galendr y gyfres o NOSCau y mae’r NOSC wedi ei ddyrannu iddi, wedi ei dilyn gan “Rhif” (“No.”) a’r rhif a neilltuwyd iddo (er enghraifft “NOSC 2026 Rhif 1” / “NWSI 2026 No. 1”);

    b. y pennawd neu benawdau pwnc a ddyrannwyd iddo.

11. Dylid cofnodi’r wybodaeth hon mewn safle amlwg ar y NOSC, fel arfer ar y dudalen gyntaf. Ond os yw’r NOSC yn cynnwys:

    a. baner, dylid gosod y rhif o dan y faner ond uwchben pennawd pwnc ac enw’r NOSC;

    b. pennyn, nid oes gofyniad i’r rhif a’r pennawd pwnc ymddangos ym mhob tudalen o’r pennyn.

12. Rhaid cyhoeddi pob NOSC a wneir ar wefan Llywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl iddo gael ei wneud.

13. Dylid hefyd gwneud cofnod o’r NOSC yn archif gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru.

### *Canllawiau ar gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru*

14. Wrth gyhoeddi NOSC ar wefan Llywodraeth Cymru:

    a. dylid cynnwys rhif y NOSC yn nheitl tudalen y wefan i gynorthwyo peiriannau chwilio i’w ganfod;

    b. dylid rhoi tag ‘deddfwriaeth’ ar y NOSC i gynorthwyo peiriannau chwilio i’w ganfod ac i gynorthwyo o ran polisïau cadw gwefannau;

    c. dylai’r dudalen we gynnwys disgrifiad cryno o gynnwys y NOSC.

15. Pan fo’n ymarferol, fel rhan o’r adran ar gyfer gwybodaeth gysylltiedig ar dudalen we pob NOSC, dylid darparu’r wybodaeth a ganlyn:

    a. dolen i’r pŵer galluogi ar gyfer y NOSC;

    b. dolenni i unrhyw NOSCau cysylltiedig a wnaed o dan y pŵer galluogi hwnnw neu fel arall.

16. Os yw’r ddeddfwriaeth yn dirymu NOSC presennol:

    a. dylid esbonio hyn yn adran “manylion” y dudalen we ar gyfer y NOSC a dylid darparu enw llawn a rhif y NOSC a ddirymwyd neu a ddisodlwyd, ynghyd â gwybodaeth ynghylch ble y gellir cyrchu neu gael gafael ar y NOSC gwreiddiol;

    b. dylid cadw’r NOSC a ddirymwyd yn yr archif gyhoeddiadau.

17. Dylai NOSC sydd mewn grym barhau i fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

18. Dylai NOSC nad yw bellach mewn grym barhau i fod yn hygyrch drwy archif gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru.

## Cadw cofnodion

19. Rhaid dal cofrestr ganolog o benawdau pwnc NOSCau, sy’n cofnodi:

    a. y penawdau pwnc y mae’r NOSCau wedi eu dosbarthu odanynt, a
    b. ar gyfer pob pennawd pwnc, ai dyma’r un pennawd pwnc ag a ddefnyddir i ddosbarthu offerynnau statudol Cymreig neu a yw’n bennawd pwnc a fabwysiadwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer NOSCau yn unig (ac, os felly, y dyddiad y mabwysiadwyd y pennawd pwnc am y tro cyntaf).

20. Rhaid dal cofrestr ganolog o NOSCau a wneir, sy’n cofnodi:

    a. enw pob NOSC;
    b. y dyddiad y gwnaed y NOSC;
    c. y rhif a ddyrannwyd i’r NOSC ar gyfer y gyfres berthnasol ar gyfer pob blwyddyn galendr;
    d. URL y dudalen we y cyhoeddwyd y NOSC arni.

## Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am weithrediad y penderfyniad hwn neu i gofrestru offeryn, cysylltwch â Swyddfa Codau Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.

## Gwneud y penderfyniad

Gwnaed y penderfyniad hwn gan y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru, ar 10 Rhagfyr 2025.